

Nodiadau i'r diffynnydd (ffurflen hawlio Rhan 8)

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus, os gwelwch yn dda - byddant yn help i chi benderfynu beth i'w wneud ynghylch yr hawliad hwn.

- Mae gennych 14 diwrnod* o'r dyddiad pan gyflwynwyd y ffurflen hawlio i chi i ymateb i'r hawliad
- Os na fyddwch yn dychwelyd y cydnabyddiad cyflwyno, caniateir i chi fod yn bresennol mewn unrhyw wrandawiad o'r hawliad hwn, ond ni chaniateir i chi gymryd rhan yn y gwrandawiad oni bai fod y llys yn rhoi caniatâd i chi wneud hynnyn
- Gall staff y llys roi gwybod i chi am drefniadaeth y llys, ond ni allant roi cyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch, dylech gysylltu â thwrnai neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth ar unwaith

Amser ar gyfer ymateb

Rhaid i chi lenwi'r cydnabyddiad cyflwyno a'i ddychwelyd i swyddfa'r llys o fewn 14 diwrnod* i'r dyddiad pan gyflwynwyd y ffurflen hawlio i chi. Os yw'r ffurflen hawlio:

- wedi ei hanfon trwy'r post, mae'r 14 diwrnod* yn cychwyn 2 ddiwrnod ar ôl dyddiad y marc post ar yr amlen.
- wedi ei danfon i'ch cyfeiriad neu wedi'i gadael yno, mae'r 14 diwrnod* yn cychwyn y diwrnod ar ôl ei danfon.
- wedi ei rhoi i chi yn bersonol, mae'r 14 diwrnod* yn cychwyn y diwrnod y'i rhoddwyd i chi.

Llenwi'r cydnabyddiad cyflwyno

Dylech lenwi adrannau A-E fel sy'n briodol. Ym **mhab** achos, rhaid i chi lenwi adrannau F ac G.

Adran A - ddim yn herio'r hawliad

Os nad ydych chi'n dymuno herio'r hyn a geisia'r hawlydd yn y ffurflen hawlio, dylech lenwi adran A. Mewn rhai achosion, efallai mai dim ond ceisio cyfarwyddyd y llys ynghylch sut i weithredu y mae'r hawlydd, yn hytrach na cheisio gorchymyn penodol. Dan amgylchiadau o'r fath, os ydych am i'r llys roi cyfarwyddyd i'r hawlydd weithredu mewn rhyw ffordd arbennig, rhowch fanylion cryno.

Adran B – herio'r hawliad

Os ydych chi'n dymuno herio'r hyn a geisia'r hawlydd yn y ffurflen hawlio, dylech lenwi adran B. Os ydych chi'n ceisio ateb sy'n wahanol i'r hyn a geisir gan yr hawlydd, dylech roi manylion byr yn y blwch a ddarperir.

Adran C - gwrthwynebu awdurdodaeth y llys

Dylech ddweud beth yw eich bwriad trwy lenwi adran C a ffeilio cais yn gwrthwynebu awdurdodaeth y llys o fewn 14 diwrnod ar ôl i chi ffeilio eich cydnabyddiad cyflwyno gyda'r llys. Bydd y llys yn trefnu dyddiad i wrando'r cais, ac yn rhoi gwybod i chi ac i'r hawlydd pa bryd ac ym mhle i fod yn bresennol.

Adran D - gwrthwynebu'r drefn a ddefnyddir

Os credwch na ddylai'r hawlydd fod wedi codi'r hawliad yn unol â Rhan 8, oherwydd:

- bod** anghytundeb sylweddol ynghylch ffeithiau'r achos; ac
- nad ydych yn cytuno bod y rheol neu'r cyfarwyddyd ymarfer a nodwyd yn caniatâu i'r hawlydd ddefnyddio'r drefn hon dylech gwblhau adran D, gan nodi eich rhesymau yn y blwch priodol.

Notes for defendant (Part 8 claim form)

Please read these notes carefully - they will help you to decide what to do about this claim.

- You have 14 days* from the date on which you were served with the claim form to respond to the claim
- If you **do not return** the acknowledgment of service, you will be allowed to attend any hearing of this claim but you will **not** be allowed to take part in the hearing unless the court gives you permission to do so
- Court staff can tell you about procedures but they cannot give legal advice. If you need legal advice, you should contact a solicitor or Citizens Advice Bureau immediately

Time for responding

The completed acknowledgment of service must be returned to the court office within 14 days* of the date on which the claim form was served on you. If the claim form was:

- sent by post, the 14 days* begins 2 days from the date of the postmark on the envelope.
- delivered or left at your address, the 14 days* begins the day after it was delivered.
- handed to you personally, the 14 days* begins on the day it was given to you.

Completing the acknowledgment of service

You should complete sections A-E as appropriate. In **all** cases you must complete sections F and G.

Section A - not contesting the claim

If you do **not** wish to contest the remedy sought by the claimant in the claim form, you should complete section A. In some cases the claimant may only be seeking the court's directions as to how to act, rather than seeking a specific order. In these circumstances, if you wish the court to direct the claimant to act in a certain way, give brief details.

Section B - contesting the claim

If you do wish to contest the remedy sought by the claimant in the claim form, you should complete section B. If you seek a remedy different from that sought by the claimant, you should give brief details in the space provided

Section C - disputing the court's jurisdiction

You should indicate your intention by completing section C and filing an application disputing the court's jurisdiction within 14 days of filing your acknowledgment of service at the court. The court will arrange a hearing date for the application and tell you and the claimant when and where to attend.

Section D - objecting to use of procedure

If you believe that the claimant should not have issued the claim under Part 8 because:

- there **is** a substantial dispute of fact involved; and
 - you do not agree that the rule or practice direction stated does provide for the claimant to use this procedure
- you should complete section D setting out your reasons in the space provided.

Adran E - tystiolaeth ysgrifenedig

Llenwch yr adran hon os ydych chi'n dymuno dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig. Rhaid i chi anfon eich tystiolaeth ysgrifenedig i'r llys gyda'ch cydnabyddiad cyflwyno. Rhaid ei chadarnhau gyda datganiad gwirionedd, neu gallai'r llys ei gwirthod. Os ydych wedi cytuno gyda'r parti(ion) arall/eraill i ymestyn yr amser ar gyfer ffeilio'ch tystiolaeth ysgrifenedig, rhaid i chi ffeilio copi o'ch cytundeb ysgrifenedig gyda'ch cydnabyddiad cyflwyno. Sylwer mai dim ond estyniad o 14 diwrnod y gall y cytundeb ei ganiatáu o'r dyddiad y byddwch chi'n ffeilio'ch cydnabyddiad cyflwyno.

Hawliadau dan adran 1 Deddf Etifeddiant (Darpariaeth i Deulu a Dibynyddion) 1975

Rhaid i ddiffynnydd sy'n gynrychiolydd personol i'r ymadawedig ffeilio a chyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig a rhaid i'r sawl sy'n darparu'r dystiolaeth honno nodi gystal ag y gall:

- fanylion llawn gwerth net ystâd yr ymadawedig, fel y'i diffinnir yn adran 25 y Ddeddf;
- y person neu'r dosbarthiadau o berson sydd â budd llesiannol yn yr ystâd, ac
 - enwau ac (oni bai eu bod yn bartion i'r hawliad) gyfeiriadau pob buddiolwyr sy'n fyw; a
 - gwerth eu buddiannau yn yr ystâd cyn belled ag y'u gwyddys;
- ai plentyn neu parti a amddiffynnir o fewn ystyr Rheol 21.1(2) yw unrhyw fuddiolwyr byw (ac os felly, ei enwi); ac
- unrhyw ffeithiau a all effeithio ar ymarfer pwerau'r llys dan y Ddeddf.

Adran F - enw'r diffynnydd

Printiwrw eich enw llawn, neu enw llawn y diffynnydd yr ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon ar ei r(h)an.

Cyflwyno i'r partïon eraill

Rhaid i chi anfon at unrhyw barti arall a enwir ar y ffurflen hawlio gopiâu o'r cydnabyddiad cyflwyno ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig, ar yr un pryd ag y byddwch yn eu ffeilio gyda'r llys.

Beth fydd yn digwydd nesaf

Caiff yr hawlydd, o fewn 14 diwrnod ar ôl derbyn unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig gennych chi, ymateb trwy ffeilio tystiolaeth bellach. Wedi i'r llys dderbyn eich cydnabyddiad cyflwyno, cyfeirir ffeil y llys at y barnwr am gyfarwyddiadau ar sut i drin yr hawliad. Bydd y llys yn cysylltu â chi ac yn dweud wrthych beth i'w wneud nesaf.

Datganiad gwirionedd.

Rhaid i chi, eich twrnai neu eich cyfaill cyfreitha, fel sydd yn briodol, lofnodi hwn.

Os yw'r diffynnydd yn gwmni cofrestredig neu'n gorfforaeth, rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi un ai gan gyfarwyddwr, trysorydd, ysgrifennydd, prif weithredwr, rheolwr neu swyddog arall gyda'r cwmni, neu (yn achos corfforaeth) gan y maer, y cadeirydd, y llywydd neu glerc y dref.

Section E - written evidence

Complete this section if you wish to rely on written evidence. You must send your written evidence to the court with your acknowledgment of service. It must be verified by a statement of truth or the court may disallow it. If you have agreed with the other party(ies) an extension of time for filing your written evidence, a copy of your written agreement must be filed with your acknowledgment of service. Please note that the agreement can only extend time by 14 days from the date you file your acknowledgment of service.

Claims under section 1 of the Inheritance (Provision for Family and Dependants) Act 1975

A defendant who is a personal representative of the deceased must file and serve written evidence which must state to the best of that person's ability:

- full details of the value of the deceased's net estate, as defined in section 25 of the Act;
- the person or classes of person beneficially interested in the estate, and
 - the names and (unless they are parties to the claim) addresses of all living beneficiaries; and
 - the value of their interests in the estate so far as they are known;
- whether any living beneficiary (and if so, naming him) is a child or protected party within the meaning of Rule 21.1(2); and
- any facts which might affect the exercise of the court's powers under the Act.

Section F - name of defendant

Print your full name, or the full name of the defendant on whose behalf you are completing this form.

Serving other parties

You must send to any other party named on the claim form, copies of both the acknowledgment of service and any written evidence, at the same time as you file them with the court.

What happens next

The claimant may, within 14 days of receiving any written evidence from you, file further evidence in reply. On receipt of your acknowledgment of service, the court file will be referred to the judge for directions for the disposal of the claim. The court will contact you and tell you what to do next.

Statement of truth

This must be signed by you, by your solicitor or your litigation friend, as appropriate.

Where the defendant is a registered company or a corporation the statement must be signed by either the director, treasurer, secretary, chief executive, manager or other officer of the company or (in the case of a corporation) the mayor, chairman, president or town clerk.

*Ar gyfer hawliadau dan y Ddeddf Etifeddiant (Darpariaeth ar gyfer Teulu a Dibynyddion) 1975, 21 diwrnod yw'r cyfnod hwn.

*For claims under the Inheritance (Provision for Family and Dependants) Act 1975 the period is 21 days.